# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

**RHAN 2**

DIGARTREFEDD

**PENNOD 2**

CYMORTH I BOBL SY'N DDIGARTREF NEU
O DAN FYGYTHIAD O DDIGARTREFEDD

*Hawl i adolygiad ac apêl*

**85 Hawl i ofyn am adolygiad**

(1) Mae gan geisydd yr hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniadau canlynol—

(a) penderfyniad awdurdod tai lleol ynghylch chymhwystra'r ceisydd ar gyfer cymorth;

(b) penderfyniad awdurdod tai lleol nad oes dyletswydd i'r ceisydd o dan adran 66, 68, 73, neu 75 (dyletswyddau i geiswyr sy'n ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd);

(c) penderfyniad awdurdod tai lleol bod dyletswydd i'r ceisydd o dan adran 66, 68, 73, neu 75 wedi dod i ben (gan gynnwys pan fo'r awdurdod wedi atgyfeirio achos y ceisydd at awdurdod arall neu wedi penderfynu bod yr amodau ar gyfer atgyfeirio wedi eu bodloni).

(2) Pan fo'r ddyletswydd i geisydd o dan adran 73 wedi dod i ben o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn adran 74(2) neu (3), mae gan geisydd yr hawl i ofyn am adolygiad o pa un a gafodd camau rhesymol eu cymryd yn ystod y cyfnod yr oedd y ddyletswydd o dan adran 73 yn ddyledus i gynorthwyo i sicrhau y byddai llety addas ar gael iddo ei feddiannu ai peidio.

(3) Caiff ceisydd y cynigir llety iddo wrth gyflawni unrhyw ddyletswydd o dan y Bennod hon, neu mewn perthynas â hi, ofyn am adolygiad o addasrwydd y llety a gynigir i'r ceisydd (pa un a yw wedi derbyn y cynnig ai peidio).

(4) Nid oes hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad a wnaed mewn adolygiad cynharach.

(5) Rhaid gwneud cais am adolygiad cyn diwedd y cyfnod o 21 o ddiwrnodau (neu'r cyfryw gyfnod hirach ag y caiff yr awdurdod ei ganiatáu yn ysgrifenedig) gan ddechrau gyda'r diwrnod yr hysbysir y ceisydd am benderfyniad yr awdurdod.

(6) Pan gyflwynir cais iddynt, rhaid i'r awdurdod neu'r awdurdodau o dan sylw adolygu eu penderfyniad.